Gweiddi

Tasg 1

# Oes gen ti drôns?!

| **CYMRAEG** | DISGRIFIAD |
|---|---|
| dosbarthu | |
| fertigol | |
| llorweddol | |
| ailwefru | |
| dwsin | |
| hinsawdd | |
| uchafswm | |
| gwyliadwrus | |
| brig | |
| synhwyryddion | |
| ochrgamu | |
| yn fêl i gyd | |
| gwendid | |

1. **Geirfa!**
   Allwch chi lenwi'r grid uchod? Sawl un allwch chi ei lenwi heb gymorth geiriadur?

## 2. Defnyddio drôns ym myd gwaith – Trafodaeth Dri Cham!

**Cam 1:** Heb wneud unrhyw fath o waith ymchwil, trafodwch a nodwch pa fath o swyddi yr ydych chi'n meddwl fyddai yn gallu manteisio ar ddefnyddio drôns.

**Cam 2:** Trwy ddefnyddio peiriant pori'r we, ymchwiliwch am engrheifftiau o swyddi sydd yn defnyddio'r dechnoleg. Cyflwynwch a thrafodwch eich canlyniadau chwilio.

**Cam 3:** Cymharwch eich syniadau o 'Cam 1' â'r hyn wnaethoch ei ddarganfod yn 'Cam 2'.

## 3. Manteision y drôn!

Trafodwch pa fanteision sydd i'r ffordd y mae'r drôns yn symud.
Trafodwch fanteision ac anfanteision y mat glanio.

## 3. Sôn am y drôn!

Tasg ar gyfer gwaith grŵp neu bartner.
Rhaid i un ohonoch chi ddewis un o'r pedwar llun heb ddatgelu pa lun i'r gweddill. Yna, heb gyfeirio at liw, disgrifiwch y drôn yr ydych wedi ei ddewis. Gwnewch hyn drwy ddefnyddio ansoddeiriau a chymariaethau. Ceisiwch fod yn ddyfeisgar gyda'ch disgrifiadau a gadael i'r gweddill yn eich grŵp ddyfalu am ba drôn yr ydych yn sôn!






## 4. E-bost

Dychmygwch mai chi yw'r cwmni sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth dosbarthu newydd yma. Ysgrifennwch e-bost deniadol i'ch cwsmeriaid i'w hysbysu o'r gwasanaeth ac i'w hyrwyddo.